Cenn@d

MAI 8 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 167

# Cofio hil-laddiad Rwanda, Ebrill–Gorffennaf 1994

Y dyddiau hyn, mae Rwanda yn cael llawer o sylw oherwydd mesur y llywodraeth yn San Steffan i anfon yno rai sy'n ceisio lloches ym Mhrydain drwy ddulliau sy'n cael eu gweld yn anghyfreithlon. Ond cofiwn yma am yr hil-laddiad ddigwyddodd yno 30 mlynedd yn ôl i'r gwanwyn hwn.

Dechreuodd y lladd ar 6 Ebrill 1994, pan saethwyd i lawr awyren yr oedd arlywydd Rwanda, Juvénal Habyarimana, ac arlywydd Bwrwndi, Cyprien Ntaryamira, yn teithio ynddi wrth iddi baratoi i lanio yn Kigali. Lladdwyd y ddau arlywydd. Mewn cyfnod o gan niwrnod rhwng 6 Ebrill a chanol Gorffennaf, lladdwyd nifer fawr o lwyth y Tutsi gan ddau filisia Hutu, yr Interahamwe a'r Impuzamugambi. Lladdwyd cryn nifer o Hutu oedd yn gwrthwynebu'r milisia hefyd. Amcangyfrif yn unig sydd o'r rhai a laddwyd yno bryd hynny, ac mae hynny rhwng 500,000 a miliwn o bobl.

Diolchwn i'r Dr Rhiannon Lloyd, Llandudno, am yr ysgrif hon a'r lluniau yn rhannu am ei gwaith a'i phrofiad hithau'n gweld cymod yn Rwanda. (Gol.)

Y tro cyntaf i mi fynd i Rwanda, ym mis Medi 1994, 12 wythnos ar ol i'r hil-laddiad yn erbyn y Tutsi ddod i ben, roedd yn lle tywyll iawn. Roedden nhw'n amcangyfrif fod hyd at filiwn o bobl wedi cael eu lladd mewn can niwrnod. Doedd yna ddim arwydd o obaith yn unrhyw le. Ac eto, yr adnod ddaeth i'm meddwl oedd Rhufeiniaid 15:13 sy'n sôn am Dduw'r gobaith yn gwneud i obaith



Hoelio'u storïau ar y Groes



Lladdodd Eliya (mewn crys llwyd) 13 o deulu Gaston (yn y crys coch). Bu Eliya yn y carchar am rai blynyddoedd ond mae wedi edifarhau'n ddwfn. Mae Gaston wedi maddau iddo – cymod anhygoel! Y ddau'n ffrindiau mawr bellach ac yn cydweithio i ddod ag iachâd i'r wlad.

orlifo ynom drwy'r Ysbryd Glân. A gobaith Duw oedd gwaith gorffenedig Iesu ar y groes. Pan es i 'nôl ychydig fisoedd ar ôl hynny, yr Ysgrythur annisgwyl ddaeth i'm meddwl oedd Eseia 60:1–3 sy'n sôn am ogoniant Duw i'w weld ar ei bobl er gwaetha'r tywyllwch dudew. Fel canlyniad, byddai'r cenhedloedd yn dod at y goleuni. Roedd hi'n anodd credu y byddai hynny'n wir am Rwanda, ond penderfynais ei gredu a'i ddatgan.

Ers hynny, dwi wedi bod yn ôl yn Rwanda o leiaf 60 o weithiau ac wedi cael y fraint aruthrol o weld Duw ar waith mewn ffyrdd cwbwl anhygoel reit o'r dechrau. Ar ôl i ddioddefwyr a'r euog hoelio'u poen a'u heuogrwydd ar y Groes, dwi wedi bod yn dyst i faddeuant ac edifeirwch sy wedi arwain at gymodi cwbwl drawiadol.

Ers 1996 mae timau'n cynnwys pobl o'r ddau lwyth wedi eu hyfforddi i redeg gweithdy tridiau 'Iacháu Calonnau, Trawsnewid Cenhedloedd'. Nid yn unig maen nhw'n gweld gwyrthiau yng nghalonnau pobl Rwanda ac ardaloedd cyfan wedi eu trawsnewid, ond hefyd mae rhai ohonyn nhw wedi bod yn mynd i wledydd eraill hefo neges iachâd a chymod drwy'r Groes.

Cynhelir Ysgol Gymodi Ryngwladol yn Rwanda ers blynyddoedd bellach. Mae pobl o ben draw'r byd wedi bod yn dod i ddysgu am brofiad Rwanda, ac mae timau cymodi wedi eu hyfforddi mewn nifer o wledydd dros y byd. Mae Duw wedi cyflawni Eseia 60:1–3! Iddo Fo bo'r gogoniant i gyd.

Gallwch ddarllen mwy yn fy llyfr *Liliau Tân*, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair ac sydd ar werth yn eich siop lyfrau leol. Am fwy o wybodaeth am y gwaith, ewch i wefan HHTNGlobal.org

*Dr Rhiannon Lloyd*
*Llandudno*

Wythnos Weddi Genedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Tudalen 3

Cymdeithasfa'r Gogledd ym Mangor Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2024
Tudalen 4

Oedfa *Cenn@d* – y Pentecost
Tudalen 8

# Pnawn Mawl yn yr Hedyn Mwstard

Rhoddwyd cyfle i aelodau eglwysi Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain gyfarfod yng Nglyn Ceiriog ddydd Sul, 28 Ebrill, ar gyfer ‘Pnawn Mawl’. Arweiniwyd y pnawn gan weithwyr EBC yn yr henaduriaeth, sef Siwan Jones a Catrin a Corey Hampton. Fel rhan o’r digwyddiad, cafwyd cyflwyniad gan y Parch. Cass Meurig sy’n gofalu am eglwysi Anglicanaidd y dyffryn. Rhoddodd hanes y Ganolfan Gristnogol yn y Glyn a’r hyn sy’n digwydd yno bellach. Dymunwn fendith arnynt i gyd yn eu gwaith a’r cydweithio yno.

### Yr Hedyn Mwstard

Agorwyd Canolfan Gristnogol Glyn Ceiriog ym 1986, yn fenter eciwmenaidd. Yno, roedd Cristnogion o’r capeli a’r eglwysi’n gallu cwrdd a chael cyfle i wasanaethu’r gymuned drwy redeg caffi bach a llawer o weithgaredd dros y blynyddoedd.

Ond yr haf diwethaf daeth yn amser i’r ffyddloniaid orffen eu shifft hir. Gofynnwyd i mi fel gweinidog yr eglwysi Anglicanaidd yn y dyffryn a fyswn i’n gallu recriwtio pwyllgor newydd a gwirfoddolwyr i redeg y lle. Iawn, oedd yr ateb! Roedd criw ohonom o’r ardal wedi bod yn cwrdd ers blwyddyn i weddïo dros Ddyffryn Ceiriog ac yn ceisio’r Arglwydd am weledigaeth. A theimlo oeddem ni fod y Ganolfan yn rhan bwysig o’r weledigaeth honno.

Ond roedd hi’n dipyn o her. Byddai eisiau gwirfoddolwyr newydd, uwchraddio’r gegin a rhoi gwedd newydd i’r adeilad. Felly, dyma ni’n cynnal gwylnos weddi a cheisio’r Arglwydd am noson a diwrnod cyfan. A daeth atebion i weddi! Rhoddodd Duw bobl i ni: digon o bobl i redeg y caffi ddau ddiwrnod yr wythnos – rhai i ffurfio pwyllgor, eraill â phrofiad o redeg caffi a’r sgiliau i wneud yr ailwampio. Cawsom grant sylweddol gan yr Eglwys yng Nghymru a rhoddion



Mwynhau o gwmpas y byrddau a’r soffa yn yr Hedyn Mwstard

hael gan Gapel Seion, yr henaduriaeth a mudiadau lleol eraill.

Buom ni’n gweddïo am enw newydd, a daeth ysbrydoliaeth o ddameg yr Hedyn Mwstard. Dyma rywle i deyrnas Dduw dyfu’n organig ac yn naturiol drwy bethau bach. Felly, cau’r Ganolfan wnaethom ni, gwneud y ‘refurb’ ac erbyn dechrau mis Hydref roedd yr Hedyn Mwstard ar agor. Roedd y caffi yn llwyddiant o’r cychwyn, a’r gymuned wrth eu boddau gyda lle mor braf a chroesawgar i allu cwrdd a chael paned, coffi da a bwyd cartref.

Ond nid caffi yn unig oedd y weledigaeth. Teimlo oeddem ni yn y grŵp gweddi fod yr Arglwydd eisiau i ni gychwyn grŵp ieuenctid. Y broblem oedd bod pob un ohonom yn teimlo ychydig bach yn rhy hen i’w redeg o. Gweddïo’n daer eto! A dyna fendith ein bod ni’n fenter eciwmenaidd. Drwy’r Presbyteriaid cawsom hyd i Siwan Jones, oedd yn fodlon dod draw o Wrecsam a rhoi cynnig arni. Dechreuodd y clwb ieuenctid fis Hydref diwethaf, a bellach mae criw o bobl ifanc yn troi i mewn i chwarae gemau a chlywed am Iesu.

Yna, ym mis Tachwedd, fe wnaethom ni ddechrau’r Bwrdd, sef pryd o fwyd am ddim gydag astudiaeth Feiblaidd ac addoliad anffurfiol. Mae criw ffyddlon o rhwng 12 ac 20 o bobl yn dod bob nos Iau, rhai ohonynt yn newydd i’r ffydd, ac rydym yn cael amser melys iawn yng nghwmni Duw a’n gilydd. Mae grwpiau eraill yn cwrdd yn yr Hedyn Mwstard ar ddyddiau eraill hefyd: grŵp crefft, grŵp dysgwyr Cymraeg, ac yn fwyaf diweddar, grŵp trafod i anffyddwyr sydd awydd holi a herio’r ffydd Gristnogol ar lefel fwy athronyddol.

A phob dydd Mawrth mae’r grŵp gweddi yn cwrdd yno i weddïo dros y cyfan, dros yr ardal i gyd a thros eglwysi’r dyffryn. Rydym eisiau gweld teyrnas Dduw yn tyfu a bywydau’n cael eu trawsffurfio, drwy nerth yr Arglwydd Iesu. Fel mae Paul yn gweddïo dros bobl Effesus, ein gweddi yw ar i bobl ‘ddod i weld yn glir a deall yn union beth ydy’r gobaith sydd ganddo ar eich cyfer, a gweld mor wych ydy’r lle bendigedig sydd ganddo i’w bobl’ (Effesiaid 1:18 B.net).

*Cass Meurig*
*Y Bala*




Catrin, Cass, Corey a Siwan fu’n arwain y pnawn mawl




Mae gweddi yn fraint ac yn fendith. Mae'n gyfle i fod ar ein pennau ein hunain, ym mhresenoldeb Duw cariadus ac yn gyfle i ni rannu'r profiad hwnnw ag eraill. Mae hefyd yn gyfle i fod yn rhan o gynllun Duw ar gyfer ei greadigaeth, yn gyfle i ddod â dyfodol ein heglwys, ein cymuned, ein gwlad a'n planed, ger ei fron.

Oherwydd hynny, y mae gweddi yn rhan gyson o fywyd eglwysig. Bydd yr Wythnos Weddi yn gyfnod pan fyddwn, fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn plygu ein pennau ac yn codi ein lleisiau fel un. Am y saith diwrnod, byddwn yn uno yn ein pryderon a'n beichiau ar gyfer dyfodol ein gwlad a'n byd. O ystyried cyflwr ysbrydol ein cenedl a thensiynau gwleidyddol ein byd, mae gwir angen i ni uno mewn gweddi.

Wrth wraidd yr Wythnos Weddi bydd dau Gyfarfod Gweddi Cenedlaethol – y cyntaf i'w gynnal nos Lun, 20 Mai, a'r ail nos Iau, 23 Mai. Bydd y ddau gyfarfod yn gyfle i'r eglwys gyfan ymuno â'i gilydd mewn gweddi. Ar y dydd Llun byddwn yn gallu ymgynnull mewn canolfannau dynodedig o amgylch Cymru (yn ogystal â Lerpwl a Llundain), drwy Zoom. Bydd cyfarfod gweddi dydd Iau yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl ar Zoom, boed o'ch cartrefi neu o unrhyw fan arall lle mae *wi-fi* ar gael.

Yn ogystal â'r Cyfarfodydd Gweddi Cenedlaethol, anogir henaduriaethau ac eglwysi i drefnu amseroedd o weddi eu hunain yn ystod yr wythnos. Mae croeso i blant a phobl ifanc sy'n rhan o fywyd yr eglwys i ymuno yn yr wythnos. Gobeithio y byddant yn cael eu hysbrydoli i weld fod gweddi'n ganolog i fywyd eglwysig llewyrchus. Gobeithio y byddwn ninnau'n cael ein hysbrydoli ganddynt hwythau yn eu tro.

Mae nifer o adnoddau ar gael i helpu unigolion ac eglwysi i wneud y gorau o'r Wythnos Weddi:

- dyddiadur gweddi am yr wythnos
- awgrymiadau a chyngor ar sut i drefnu cyfarfodydd gweddi
- poster a map yn dangos canolfannau'r Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol ar y nos Lun
- poster ar gyfer Cyfarfod Gweddi nos Iau
- adnoddau ar gyfer cynnal gwasanaeth ysgolion cynradd ac uwchradd
- adnoddau i glybiau plant ac ieuenctid.


Yn ogystal â hyn, bydd ffilmiau'n cael eu huwchlwytho i wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Byddant yn annog ac yn ysbrydoli pobl i weddïo trwy gydol yr Wythnos Weddi a thu hwnt. Mae pregeth ar ffilm am weddi ar gael i'r eglwysi hynny nad oes ganddynt bregethwr ar gyfer Sul yr Wythnos Weddi (26 Mai).

Wrth i'r Wythnos Weddi agosáu, rwy'n ymwybodol fod Duw wedi defnyddio EBC, ymhlith enwadau eraill, i greu gwlad fodern, anghydffurfiol. Yn sgil hyn, mae dylanwad ein cenedl fechan wedi ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau ein gwlad – hyn eto drwy law Duw. Rydyn ni bellach yn byw mewn cyfnod tra gwahanol, gyda heriau gwahanol, ond mae gweddi – oedd yn sail i bopeth a wnaeth ein hynafiaid – mor berthnasol heddiw ag erioed. Rhaid inni weddïo!

Mae ein byd mewn trafferthion enfawr a'n cenedl fach ni heb obaith. Felly, er ein lles ein hunain, mae'n rhaid inni weddïo. Dywedodd Iesu, "Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw, hyn a wnaf, fel y gellir gogoneddu'r Tad yn y Mab. Os gofynnwch unrhyw beth i mi yn fy enw i, fe'i gwnaf" (Ioan 14:13,14).

Yn ystod yr Wythnos Weddi, gadewch inni dderbyn y gwahoddiad hwn i ymuno ag Ef mewn gweddi, i lunio dyfodol ein heglwys, ein cenedl a'n byd.

*Owen Griffiths*
*Cadeirydd Pwyllgor Trefnu'r Wythnos Weddi*



# Cymdeithasfa'r Gogledd ym Mangor Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2024



Y Cyn-lywydd, y Parch. Anna Jane Evans, gyda'r Llywydd newydd, Mrs Meinir Lloyd Jones



Y blaenoriaid a'r gweinidogion oedd yn bresennol i gydnabod eu gwasanaeth. Yn eu plith y Parch. Aneurin Owen, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, a longyfarchwyd ar ei ordeinio'n flaenor ers 40 mlynedd

Diwrnod heulog o wanwyn oedd hi pan ddaeth Sasiwn y Gogledd i Fangor, ac i Henaduriaeth Arfon. Roedd eglwys Berea Newydd yn lleoliad hynod o addas, gyda'i gyfuniad o fodernrwydd ac urddas pensaernïol. Cafwyd croeso cynnes a chartrefol gan aelodau a swyddogion yr eglwys a chan yr henaduriaeth. Yn y gadair roedd y Parch. Anna Jane Evans, yn diweddu ei thymor fel Llywydd y Gymdeithasfa.

Gwaith a busnes EBC yn y Gogledd oedd prif nodwedd eisteddiad y bore, a chafwyd adroddiadau manwl ac eglur gan bwyllgorau'r Gymdeithasfa, y cyfan yn adlewyrchu gweithgarwch dyfal ar draws y rhanbarth.

Trafodwyd materion fel y cynnig i flaenoriaid EBC gael eu hethol am dymor penodol. Argymhelliad y Sasiwn oedd peidio â bwrw ymlaen â'r cynllun hwn.

Rhoes yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Nan Powell-Davies, arolwg o sefyllfa'r Cyfundeb yn genedlaethol a'r heriau sydd yn ein hwynebu, yn ogystal â'n cyfrifoldeb a'n hymateb ni fel Cristionogion i faterion rhyngwladol, fel y drasiedi yn Gaza (gweler y Datganiad ar Balesteina ac Israel).

Cafwyd adroddiad ar Hanes yr Achos yn Henaduriaeth Arfon, ac er bod pump yn llai o eglwysi nag oedd yna yn 2016 a nifer yr aelodau wedi lleihau, gwelwyd bod addoliad a gweithgarwch eglwysig cryf yn parhau.

Yn eisteddiad y prynhawn cawsom y fraint o anrhydeddu'r rhai a roes ddegawdau o wasanaeth i Eglwys Iesu Grist. Roedd dau o weinidogion wedi eu hordeinio ers 60 mlynedd, sef y Parch. John Owen, Rhuthun, a'r Parch. Robert Capon, Benllech; ac roedd y Parch. Hugh Pritchard, Llangefni, wedi ei ordeinio ers deugain mlynedd.

Roedd tri blaenor hefyd wedi eu hordeinio ers 60 mlynedd, tri ers 50 mlynedd ac ugain ers deugain mlynedd – cyfanswm o 1,130 o flynyddoedd o lafur cariad gwirfoddol!

Gyda thristwch a diolchgarwch, cawsom goffáu gweinidogion a blaenoriaid a gollwyd yn ddiweddar. Bu coffa am y Parch. Robert Bebb, Llanidloes, fu'n llywydd y Gymdeithasfa yn nhalaith y Dwyrain, y Parch. Tom Wright, Wrecsam, a'r Parch Tudur Rowlands, Rhewl. Buom yn cofio am y 21 o flaenoriaid a gollwyd ar draws y saith henaduriaeth, a chyflwynwyd gweddi o goffâd drostynt oll gan y Parch. Nerys Griffiths.

Un o ddefodau hanfodol Cymdeithasfa'r Gwanwyn yw pentymor un llywydd a chychwyn gwaith llywydd newydd. Cyfaddefodd y Parch. Anna Jane Evans, ar ddechrau ei haraith ymadawol, ei bod yn emosiynol ynglŷn a'r achlysur er na roesai erioed fri mawr ar ddefod. Rhoes inni ei hargraffiadau byw o brofiadau cofiadwy ei thymor yn y swydd.

Yn dilyn yr araith, fe urddwyd Mrs Meinir Lloyd Jones, Penrhyndeudraeth, yn llywydd am y flwyddyn 2024–5. Wedi arwyddo Beibl y Llywydd, fe ddiolchodd am yr anrhydedd ac am y cyfle i wasanaethu'r Gymdeithasfa ymhellach.

Un o bleserau mawr y Sasiwn yw'r cyfle am "felys gwrdd â hen gyfeillion" ac i sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le – ac mae digon o alw am hynny bob amser. Roedd y lluniaeth rhagorol ym Mangor yn adlewyrchu cynhesrwydd y croeso. Ac fe aethom ni i gyd allan i heulwen hwyr y prynhawn ac i'n hynt, ymhell neu agos, yn barod i wynebu gwres y dydd yn ein cwr neilltuol ninnau o'r winllan.

*Robert Morris*
*Pen-y-groes*

*Datganiad a wnaed gan Gymdeithasfa'r Gogledd ar Balesteina ac Israel*

1. Diolch i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am ei harweiniad clir ym mater Palesteina ac Israel yn ystod y cyfnod cythryblus yma.
2. Mae hyn yn adlewyrchu trafodaethau a phenderfyniadau'r Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas ac yn cyd-fynd â'n partneriaeth gyda Chymorth Cristnogol, CWM ac EAPPI.
3. Rydym yn cymeradwyo fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn parhau â'i safiad ac yn gweithio, siarad, a chydweithio, dros gadoediad, heddwch a chyfiawnder ym Mhalesteina ac Israel ymhob ffordd bosibl.

**Wythnos Cymorth Cristnogol 12–18 Mai**

I lawrlwytho'r adnoddau, ewch i'r wefan: Christian Aid Week Resources

# Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion



Y Parch. Ddr Watcyn James, Llywydd y Gymanfa



Y teulu MacDonald o Batagonia



Mrs Helen Medi Williams, arweinyddes cyfarfod y plant, yn cael cymorth gyda'r symudiadau

Roedd dydd Sul, 28 Ebrill, yn ddiwrnod arbennig i gapeli gogledd Ceredigion – diwrnod y Gymanfa Ganu flynyddol. Tro Capel Bethel, Tal-y-bont, oedd hi i groesawu'r Gymanfa eleni, a chafwyd croeso cynnes yno a threfniadau hwylus iawn.

Cyfarfod y plant a gafwyd yn y bore, a phlant Ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont, oedd yn gyfrifol am y rhannau dechreuol. Yna, cyflwynwyd yr emynau gan blant yr ysgolion Sul lleol: Horeb, Penrhyn-coch; Capel Seion; Capel y Morfa, Aberystwyth, a Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth. Yr arweinyddes oedd Mrs Helen Medi Williams, ac roedd mwynhad y plant yn amlwg wrth iddynt ymateb i'w dull cartrefol ac agos-atoch o arwain yr emynau.

Braint oedd croesawu'r teulu MacDonald, o'r Gaiman, Patagonia, i'r cyfarfod a chafwyd eitem hyfryd ganddynt, a'u dehongliad o'r emyn 'Plant bach Iesu Grist' yn swyno'r gynulleidfa.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Lywydd Pwyllgor y Gymanfa, sef y Parchedig Ddr R. Watcyn James, a chyflwynodd stori'r ddau aeth i'r deml i weddïo mewn dull apelgar i'r plant – a'r oedolion oedd yn bresennol.

Yn dilyn y cyfarfod, braf oedd cyfle i fwynhau paned a sgwrs yn y neuadd.

Mrs Delyth Hopkins Evans, Pontrhydygroes, oedd yr arweinyddes yng nghymanfa'r hwyr, a chafwyd canu ystyrlon ac eneiniedig dan ei harweiniad. Y llywydd, Y Parchedig Ddr Watcyn James, oedd yn gyfrifol am y defosiwn, ac yn ei anerchiad tynnodd sylw at y cyfeiriadau niferus at ganu yn yr ysgrythur ac yn ein hemynau, a'i bwysigrwydd allweddol yn ein traddodiad mawl. Ef hefyd a gyflwynodd yr emyn coffa a ganwyd er cof am y rhai a gollwyd o'n plith yn ystod y flwyddyn.

Y cyfeilydd yn y ddau gyfarfod oedd Mrs Falyri Jenkins, a diolchodd y Llywydd iddi hi am ei chyfraniad pwysig yn ystod y dydd ac i bawb a fu ynglŷn â threfnu'r gymanfa lwyddiannus hon.

*Marian Beech Hughes*

# Gweddi dros etholiadau India

Mae Cristnogion yn India yn gofyn i'w teulu eglwysig byd-eang ymuno â nhw i weddïo dros yr etholiadau cenedlaethol sy'n cael eu cynnal yno rhwng 19 Ebrill ac 1 Mehefin. Cyhoeddir y canlyniadau ar 4 Mehefin.

Er bod rhyddid crefydd neu gred yn hawl gyfansoddiadol yn India, mae Cristnogion mewn sawl ardal dan fygythiad cynyddol gan eithafwyr Hindŵaidd. Mae hyn yn aml yn cynnwys ymosodiadau treisgar, a dyna un o'r prif resymau pam mae India yn rhif 11 ar Restr Gwylio'r Byd eleni. Rhestr Gwylio'r Byd yw rhestr flynyddol Open Doors o wledydd lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth fwyaf eithafol.

I'n brodyr a'n chwiorydd yn India, mae rhyddid crefyddol yn y fantol yn yr wythnosau nesaf wrth i genedlaetholwyr Hindŵaidd geisio gosod eu hagenda. Mae Cristnogion India yn ofni y gallai'r etholiadau arwain at weithredu'r deddfau yn erbyn tröedigaeth (anti-conversion) yn ehangach, hyd yn oed ledled y wlad. Dyma'r deddfau a ddefnyddir yn aml i dargedu credinwyr â chyhuddiadau ffug.

OpenDoors

**ETHOLIADAU INDIA**

## GWEDDÏWCH

- Am ymgyrchu ac etholiadau heddychlon
- Na fydd pobl yn cael eu dylanwadu gan bropaganda ffug neu gamarweiniol
- Er mwyn amddiffyn Cristnogion yn India




Gweddïwch os gwelwch yn dda:
- Am ymgyrchu ac etholiadau heddychlon
- Na fydd pobl yn cael eu dylanwadu gan bropaganda ffug neu gamarweiniol
- Er mwyn amddiffyn Cristnogion yn India.

Mae fersiwn Cymraeg o'r llyfryn *Rhestr Gwylio'r Byd* ar gael bellach at ddefnydd ein heglwysi o anfon nodyn at Jim Stuart: jims@opendoorsuk.org

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 24**
**Banc Bwyd**

**Darlleniad: Genesis 41:37–49; Marc 12:21–4**

### Gweddi
Plygwn o'th flaen, Arglwydd, yn ein myfyrdod, gan ddiolch am y bwyd sydd ar ein bwrdd bob dydd. Byddwn yn medru tyfu neu brynu bwydydd iach a blasus, gan wybod bod y dewis sydd gennym yn eang. Helpa ni i feddwl heddiw am y rhai sydd heb yr incwm priodol i gwrdd â'u holl gostau ac sy'n gorfod dewis rhwng talu biliau neu brynu bwyd i'r teulu. Amen.

### Cyflwyniad
Bydd hanes Joseff yn gyfarwydd i bawb, ac yntau wedi ei werthu fel caethwas i'r Aifft gan ei frodyr cenfigennus. Cododd ei statws o fod yn garcharor i fod yn brif weinidog yr Aifft, a hynny am fod ganddo'r ddawn i ddehongli breuddwydion a threfnu'n dda. Ar ddechrau Pennod 41 cofnodir breuddwydion Pharo am y saith buwch denau yn bwyta'r saith buwch dew, a'r saith dywysen denau yn llyncu'r saith dywysen dew. Dehonglodd Joseff y breuddwydion i rag-weld saith mlynedd ffyniannus ac yna saith mlynedd heb gnydau, a bod angen darparu yn y cyfnod o lewyrch ar gyfer y cyfnod o newyn. Cafodd Joseff y gwaith gan Pharo o drefnu i storio bwydydd yn y saith mlynedd dda ar gyfer y saith mlynedd wael. Yn ddiweddarach yn yr hanes daeth brodyr Joseff o Ganaan i chwilio am fwyd, ac mae'r hanes yn gorffen gyda chymod rhwng y teulu cyfan.

### Myfyrdod
Bydd pob teulu doeth yn cynilo mewn cyfnod o ddigonedd er mwyn eu cynnal eu hunain mewn cyfnod o brinder. Bydd rhai, fel actorion neu'r sawl sydd heb waith cyson, yn gorfod dysgu'r egwyddorion sylfaenol hyn. Beth am y bobl sydd heb ddigon yn y lle cyntaf, ac yn ôl yr hen air yn 'dal llygoden a'i bwyta'? Yn yr un modd, mewn gwledydd lle ceir sychder mawr am sawl blwyddyn, fel yng ngogledd cyfandir yr Affrig, nid oes economi ddiogel i sicrhau unrhyw gynilo, ac maent yn aml yn bwyta'r tatws had heb syniad beth i'w blannu ar gyfer y tymor nesaf. Daw enwau gwledydd fel Eritrea ac Ethiopia yn sydyn i'r cof o argyfyngau'r gorffennol.

Yr un math o ing a ddaw yn brofiad i'r teuluoedd ym Mhrydain sydd yn aml yn gweithio, fel nad ydynt yn medru hawlio nawdd cymdeithasol, ond heb ennill digon i dalu costau sylfaenol bywyd ac yn gorfod gwneud dewisiadau anodd yn rheolaidd. Nodwedd gyfarwydd ym Mhrydain bellach yw'r Banciau Bwyd, a bu'r eglwysi ar flaen y gad yn casglu bwydydd sych neu fwydydd mewn tuniau. Bydd y teuluoedd tlawd hyn yn cael talebau gan weithwyr cymdeithasol neu ganolfannau meddygol sy'n eu galluogi i gasglu bagiaid o nwyddau cyfwerth â thri diwrnod o fwyd i'w helpu ar eu taith. Prin bod hyn yn ddelfrydol, ond y mae'n cwrdd â gofynion y dydd. Bu'n rhan o weithgarwch eglwysi Cymraeg Caerdydd a'r cylch i darparu brechdanau a ffrwythau yn y festri ar brynhawn Sul, ac mae'r gwasanaeth wedi ymestyn fel bod bwyd ar gael ar ddydd Mercher hefyd. Bu siopau a bwytai lleol yn hapus i estyn bwyd hefyd, ac yn ystod 2024 gwelwyd deugain a mwy yn gwerthfawrogi croeso a lluniaeth y lle.

Prin bod hyn yn ymarferol ym mhob ardal, ond gall pob eglwys a chymuned gydweithio i gynnal Banc Bwyd. Gallwn ddyfynnu geiriau Iesu eto o ddameg y Defaid a'r Geifr, 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch' (Mathew 25).

### Gweddi
Trugarha wrthyf, Arglwydd, am boeni gormod am ymborth fy mwrdd i, heb feddwl am yr hyn sydd ar fwrdd y rhai sydd heb fodd i gynllunio bwydlen iach i'w teuluoedd. Diolchwn heddiw am y cyfeillion sy'n cydlynu cynllun y Banciau Bwyd ac yn effro i'w rannu'n deg â'r anghenus yn ein broydd. Agor fy llygaid i weld y cyfle ac i weithredu gyda llu o gymunedau ffydd eraill a mudiadau dyngarol ledled Caerdydd, ac ar draws y byd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Prin y byddai Joseff a'i gôt amryliw wedi rhag-weld ei waith ym 'manc bwyd' yr Aifft, mwy na bod merch o Malta yn weinidog yn y Tabernacl, Caerdydd. A fyddwn yn gweld darpariaethau annisgwyl Duw?
2. Pwy roddodd fwyaf: y wraig â'r ddwy hatling neu'r cyfoethog a estynnodd bunnoedd?
3. Pwy sy'n elwa fwyaf dros ddegawdau drwy gynllun y banciau bwyd: y sawl sy'n derbyn neu'r sawl sy'n rhoi?
4. Mae'r lluniau o'r Palestiniaid yn Gaza yn heriol, ond a welwn yr un angen mewn nifer o wledydd ar gyfandir yr Affrig nawr?


Eglwys Bresbyteraidd Cymru

GOLEUNI'R BYWYD

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De
### Capel Soar Pontyberem
**Dydd Iau, Mai 16eg, 2024**

**Cyfarfod y prynhawn am 2 o'r gloch**
**Miriam Watling,** ***Llundain***

**Cyfarfod yr hwyr am 5 o'r gloch**
**Siân Wyn Rees,** ***Cymdeithas y Beibl***

Edrychwn ymlaen at wrando ar ddwy siaradwraig ifanc i'n hysbrydoli. Byddwn yn canu emyn newydd gan Elinor Nicholson ac yn cael cyfle i ymlacio ar ddiwrnod braf i fwynhau bendith yr Arglwydd.
'Dewch, hen ac ieuainc, dewch at Iesu, mae'n llawn bryd'

***Darperir te rhwng y ddau gyfarfod***

**Bydd croeso twymgalon yn disgwyl amdanoch**

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 12 Mai, am 7:30yb a 16:30yp**
Y gantores opera Siân Meinir sy'n trafod rhai o emynau Ann Griffiths

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 12 Mai, am 12yp**
Oedfa dan ofal Nan Wyn Powell-Davies – Sul Cymorth Cristnogol

# O'r byd a'r betws
## Y geiriau digariad

Pa ganran o ddarllenwyr *Cenn@d* sy'n prynu papur dyddiol bellach? Beth bynnag yr ateb, gostwng mae niferoedd y darllenwyr ar bob llaw. Os yw'r wasg yn poeni am ei heinioes, a phapurau 'cenedlaethol' Cymru yn mynd yn ysgafnach o ran maint a sylwedd, beth yw'r dyfodol?

Bydd rhai ohonom yn prynu'r *Daily Post* neu'r *Western Mail* er mwyn cadw rhyw fath o bapur dyddiol Cymreig. Dagrau pethau yw mai cawl eildwym yw llawer o'r erthyglau, a bod hysbysebion ar bob yn ail tudalen bron, er mwyn talu am y papur. Pryd fydd y wasg yn Lloegr yn wynebu yr un argyfwng? Prin yw'r gwir drafod ar unrhyw bwnc. Peiriant propaganda i bleidiau gwleidyddol yw'r wasg Saesneg bellach, yn hytrach na'i bod yn adrodd newyddion y dydd. A'r hyn a wnânt yw estyn gogwydd goch neu las ar eu dehongliadau hwy o'r hyn a ddigwyddodd.

Ar raglen Dei Tomos yn ddiweddar, clywsom un sylwebydd craff yn dweud nad yw'n prynu papur dyddiol a'i fod yn dibynnu ar ddeunydd Albanaidd i gael newyddion am weddill gwledydd Prydain. Penodwyd Humza Yousaf yn arweinydd yr SNP ac felly'n brif weinidog yr Alban yn y dybiaeth ei fod yn berson a allai gadw unoliaeth y blaid honno. Ac yntau'n berson ifanc a'i wreiddiau yn Pacistan, tybiwyd ei fod yn ddewis doeth a chymedrol. Ond byrhoedlog fu ei gyfnod fel prif weinidog yn Hollyrood, gan ddangos bod gwleidyddiaeth yn faes creulon a chalongaled. Bydd llawer yn ceisio darogan nawr pwy fydd arweinydd nesaf y Blaid Geidwadol ym Mhrydain ac y bydd Rishi Sunak, y gŵr o gefndir Asiaidd, yn colli ei swydd fel prif weinidog ac arweinydd y Torïaid.

Daeth arweinydd newydd i'r Blaid Lafur yng Nghymru ac felly'n brif weinidog yn y Senedd yng Nghaerdydd. Prin ei fod wedi ymgartrefu yn ei swyddfa newydd cyn bod rhai o fewn y system wleidyddol yn awyddus i'w weld yn colli a methu. Yn ddiddorol, mae ef hefyd o hil arall. Nid ei hil yw targed y feirniadaeth, mwy nag yn sefyllfa Yousaf a Sunak, ond bod y pleidiau y maent yn eu harwain mor rhanedig fel bod uno'r pleidiau'n fewnol yn bwysicach nag arwain y llywodraeth a'r senedd yn briodol.

Onid lles deiliaid y gwladwriaethau sy'n bwysig, ac nid hyrwyddo ysgarmesoedd gwleidyddol? A yw'r wasg yn gorliwio'r gwahaniaethau er mwyn creu meddylfryd negyddol am y blaid nad ydynt yn ei chefnogi? Prin fod llywodraethau ar draws Ewrop a'r byd yn gweld gwerth mewn rhoi cefnogaeth ymarferol, gadarnhaol i helpu'r cymunedau tlawd a difreintiedig, os nad yw'r llywodraeth honno yn elwa'n wleidyddol o'r cymorth hwnnw. Mae gwledydd ar eu cythlwng ar gyfandir yr Affrig oherwydd prinder glaw neu ddiffyg buddsoddiad amaethyddol. Bydd apêl enwadol y Bedyddwyr yng Nghymru i gefnogi prosiect amaethyddol Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe yn dangos beth sy'n bosibl, ond safbwynt gormod o'r wasg yw'r ddadl fyfïol, ac wfft i dlodion ym mhen draw'r byd: 'Yn gymaint â'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai bychain hyn, i mi y'i gwnaethoch'.

*Denzil I. John*

# Cofio Trebor, yr Acre



Trebor a Glenys Roberts yn dathlu 64 mlynedd o briodas

Roeddwn yn clywed yn barhaus am brinder gweinidogion dros y blynyddoedd, ac yn sicr mae realiti hynny wedi pwyso'n drwm ar ein henwad dros yr hanner canrif ddiwethaf. Ond, yn fwy allweddol yw'r prinhau sydd wedi bod yn nifer ein blaenoriaid. Fel enwad sy'n cynnal fod arweinyddiaeth eglwys yn hanfodol luosog a bod gweinidogion a blaenoriaid fel ei gilydd yn gydradd o ran rôl, braidd nad yw'r pwyslais ar brinder gweinidogion yn bradychu rhyw ddyrchafu'r naill dros y llall.

O'm rhan fy hun, er yn llawn sylweddoli'r cyfrifoldeb o arwain yn lleol, roeddwn yn sylweddoli hefyd fod Duw yn ei ddaioni wedi sicrhau nad oeddwn yn arwain ar fy mhen fy hun. Un o'r rhai oedd yn cydarwain yn ystod fy nghyfnod yn Llansannan oedd Trebor 'yr Acre'. Dyn ifanc yn ei ddauddegau, a dyn wedi symud i'r ardal oedd Trebor pan ddewiswyd ef yn flaenor. Cafodd ei alw, nid am fod yna brinder rhai hŷn i wneud y gwaith, ond oherwydd bod y gynnulleidfa wedi gweld rhywbeth yn ei gymeriad, ei dduwioldeb, ei ddoethineb.

Roedd yn chwith felly clywed am ei farw'n ddiweddar, a sylweddoli fy mod wedi colli un oedd yn gyfaill hael, yn gyfaill beirniadol yn yr ystyr orau, ac yn gyfaill fu'n cydarwain. Diolch fod ei obaith yn llawn tragwyddoldeb, a'i fod ymhlith y llu sydd yng nghymanfa'r myrddiynau o angylion yn cadw gŵyl.

**Eglwys Dduw**
**(er cof am J. Trebor Roberts)**

Fendigaid ddydd, bydd Seion uwch y llawr
heb d'wyllwch dudew ond mewn golau clir,
ac Awdur troeon tragwyddoldeb mawr
yn olrhain dewis meini at ei mur.
Ceir mab Cae Du,[1] a'i ddawn i roi ein hiaith
ar wefus Duw, ymhlith y cerrig nadd;
seraffiaid ac emynwyr aeth i'w taith
o'r Chwibren[2] a Bryn Bugad,[3] yn wŷr gwadd.
Ond pennaf ddeunydd meini bywiol Duw
yw'r ffôl a'r gwan, y rhai sy'n neb i'r byd;
y rhai, o glywed llais yr Iesu byw,
a ddaeth yn fagwyr cryf o'u galw 'nghyd.
Y mur o fyrdd myrddiynau yw y rhain,
yr etholedig rai, y waliau cain.

*Meirion Morris*

1 William Salesbury
2 Henry a William Rees
3 Edward Parry

# Oedfa Cenn@d – y Pentecost

**Gweddi agoriadol**
Ysbryd Glân Duw,
fel y daethost ar ddisgyblion Iesu
ar y Pentecost cyntaf,
mewn gwynt nerthol a thafodau tân,
gan eu llenwi â grym a hyder
i wneud pethau mawr drosot,
tyrd atom ninnau'n awr.
Tyrd megis anadl Duw i'n bywhau;
tyrd megis tafod tân i'n puro;
tyrd megis dŵr bywiol i'n diwallu;
tyrd megis gwynt nerthol i'n hadnewyddu,
tyrd megis colomen, a rho inni dangnefedd;
tyrd, Arlgwydd, yn dy lawnder,
a llanw ni â holl lawnder Duw.
(*Llyfr Gwasanaethau EBC*, t. 73)

**Emyn 596**: 'O disgyn, Ysbryd Glân'

**Cyflwyniad**
Mae'n Sul y Pentecost, diwrnod pen-blwydd yr Eglwys, a ninnau'n cofio ac yn dathlu tywalltiad yr Ysbryd Glân ar yr Apostolion.

Gŵyl ddiolchgarwch yw Pentecost yr Iddewon. Ar yr ŵyl hon mae'r genedl yn coffáu offrymu ffrwythau cynta'r cynhaeaf yng ngwlad Canaan i Dduw. Diolch y mae am y waredigaeth o gaethiwed a chaledi'r Aifft – y daith faith trwy'r anialwch i Wlad yr Addewid.

I'r Cristion, mae'r Pentecost yn rhan o stori'r Pasg. A chadw at yr un ddelwedd – dathlu'r waredigaeth i ryddid o gaethiwed pechod drwy anialwch dioddefaint Iesu Grist, drwy Gethsemane a'r Groes a'r bedd gwag, i wlad addewid teyrnas Dduw. Ar y Pentecost mae **Duw** yn rhoi ffrwythau cyntaf ei deyrnas i **ni**. A'r blaenffrwyth hwn ydy'r Ysbryd Glân, sef presenoldeb a chariad Duw yn ein mysg.

**Darlleniad**: Actau 2:1–13

**Emyn 576**: 'Iesu roes addewid hyfryd'

**Gweddi**
Cydweddïo Emyn 597: 'O Ysbryd byw, dylifa drwom'

**Emyn 570**: 'Greawdwr ac Iachawdwr glân'

**Myfyrdod**
Faint ohonoch chi, tybed, sy'n gwisgo modrwy dyweddïo? Mae'r fodrwy yn ernes fod y person sy'n ei gwisgo wedi ymrwymo i berthynas unigryw ac arbennig â'r dyweddi. Mewn gair, mae'r fodrwy yn ernes o'r dyfodol, yn symbol o lawenydd. Mae hefyd yn addewid y bydd y berthynas yn datblygu, a'r adnabyddiaeth a'r llawenydd yn tyfu ac yn aeddfedu.

Y gair Groeg modern am fodrwy dyweddïo, mae'n debyg, ydy *arrabon*. A dyma'r union air y mae'r Apostol Paul yn ei ddefnyddio am yr Ysbryd Glân. Mewn gwirionedd, dydy'r ystyr waelodol ddim wedi newid cymaint â hynny dros y canrifoedd.

Yr hyn ddigwyddodd ar y Pentecost oedd fod Duw, drwy anfon yr Ysbryd Glân, wedi rhoi ernes o'i gariad i ni. Efo tywalltiad yr Ysbryd Glân mae'r bywyd newydd yng Nghrist ar gael. Yr Ysbryd Glân, yr *arrabon*, ydy'r addewid am y dyfodol. Dyma'r fodrwy dyweddïo – ernes o gariad ac arwydd fod Duw, drwy ei Ysbryd Glân, am ail-greu'r byd i fod yn Wlad yr Addewid, yn fyd newydd o gariad a thrugaredd, cyfiawnder a llawnder.

Pan mae pethau'n digwydd fel ar y Pentecost cyntaf – y gwynt nerthol a'r tafodau tân – mae'n hawdd credu ac ymdeimlo â phresenoldeb Duw. Ac mae hynny'n symbylu pobl i wneud pethau mawr. Ond dydy pethau ddim yn digwydd fel yna i ni! Does ganddon ni ddim sicrwydd gweledol. Sut gallwn ni fod yn sicr fod Duw, drwy ei Ysbryd Glân, am ail-greu ein byd cythryblus ni yn fyd o gariad a chyfiawnder a thrugaredd?

A dyna broblem pobol heddiw, yntê! Rydyn ni, Gristnogion, yn cyhoeddi bod Iesu wedi ei gyfodi, a bod Duw bellach drwy ei Ysbryd yn ein mysg yn ail-greu'r byd, yn ein hail-greu ni. Ac eto mae 'na ryfeloedd a thlodi, afiechyd a dioddefaint; mae 'na gasineb a brad a thrais annynol. Rydyn ni'n ffieiddio at ymddygiad llawer o arweinyddion cymdeithas – a hynny ddim heb reswm! Ac eto, does dim angen i 'run ohonom edrych ymhellach na fo neu hi ei hun i sylweddoli ein bod ni i gyd yn syrthio'n fyr o'r hyn y dylsem ni fod.

Ar ddechrau Llyfr yr Actau mae Luc yn dweud ei fod wedi ysgrifennu 'am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu'. Sylwch ar hyn – 'y **dechreuodd** Iesu eu gwneud'. Mewn un ffordd, mi gyflawnodd Iesu bopeth drwy farw ar Galfaria ac atgyfodi'r trydydd dydd. Trwy goncro pechod a marwolaeth, roedd Iesu wedi rhoi cyfle newydd i'r byd, wedi dechrau trefn newydd.

Ond, mewn ystyr arall, roedd wedi dechrau **proses** newydd, proses na ellir ei rhwystro na'i hatal. Yng ngeiriau'r Apostol Paul, byddai'n 'cymodi'r byd ag Ef ei hun' a newid i drefn y cyfamod newydd. Ac O! mae'n broses heriol a hir i newid y byd!

A'r ffordd y mae Iesu'n dechrau'r broses yma ydy drwy anfon ei Ysbryd Glân i fod wrth law o hyd inni, drwy ein hannog i garu ein gilydd fel y carodd y Tad ni. Mae'r drefn newydd, y cyfamod newydd, wedi dechrau gyda rhyddhau'r Ysbryd ar ddydd y Pentecost. Mae'r Ysbryd ar gael i'r sawl sy'n gweddïo o ddifrif amdano, i'r sawl sy'n dyheu amdano mewn gwirionedd.

Pan dderbyniwn hwn, dyna pryd rydyn ni'n cychwyn ar y gwaith a adawodd Iesu inni, sef cyhoeddi'r newyddion da am gariad a gras a maddeuant Duw. A chofiwch, mae Ef wedi ei wneud ei hun yn hollol ddibynnol ar ei ddilynwyr. Drwy bresenoldeb Ysbryd y Duw Byw ynom ni, rydyn ni'n cael ein galluogi i ddangos cariad Duw i eraill.

Wrth bregethu am yr Ysbryd Glân i dyrfa fawr un tro, gofynnodd yr efengylydd Dwight L. Moody gwestiwn i'w gynulleidfa. Gan ddal gwydryn gwag i fyny o'u blaenau, holodd sut y gallai gael yr aer allan o'r gwydryn. Awgrymodd rhywun y gallai ei sugno allan efo pwmp. Ond na, meddai Moody, gallai hynny greu gwactod a chwalu'r gwydr. Wedi gwrando ar lu o awgrymiadau, cydiodd Moody mewn jwg o ddŵr a'i dywallt i'r gwydryn nes ei lenwi i'r ymylon. Yna, daliodd y gwydr llawn i fyny o flaen ei gynulleidfa gan egluro na ddown ni byth i'r bywyd Cristnogol drwy geisio sugno ambell bechod yma ac acw allan o'n bywyd. Mae'n rhaid i ni, fel y gwydraid o ddŵr, gael ein llenwi â'r Ysbryd Glân.

Dim ond presenoldeb ysbryd Duw yn ein calonnau all ein galluogi i gyflawni'r gwaith a adawodd Iesu i ni. Dim ond presenoldeb ysbryd Duw – yr *arrabon* – sy'n gallu iacháu a chyfannu bywydau a byd rhwygedig. Presenoldeb Ysbryd Duw yng nghalonnau dynion ydy'r unig ffordd yn y pen draw i ddod â chyfiawnder ac urddas, cymod a thangnefedd i bawb.

Mae teyrnas Dduw, teyrnasiad Duw, wedi dod yn Iesu Grist. Mae wedi ymddiried y gwaith o'i lledaenu i ni! Ac i'n galluogi ni i gyflawni'r gwaith yma, mae wedi anfon ei Ysbryd i ni ar y Pentecost – yn ernes, yn *arrabon*. Gwaith ydyw sydd ddim ond megis dechrau, ond gwaith ydyw hefyd na all dim ar wyneb y ddaear ei rwystro.

**Emyn 580**: 'O Dduw, rho im dy Ysbryd'

**Y Fendith**

*Megan Williams*
*Porthaethwy*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru